



10.6.22

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Fel y gwyddoch, os bydd y tywydd yn caniatáu, byddwn yn cynnal ein Mabolgampau wythnos nesaf. Mae'r amserlen ar y wefan, llythyr dyddiedig 7.6.22.

Dyma rywfaint o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Cynhelir Mabolgampau ar y cae a bydd pob un yn dechrau am 1pm. Arhoswch y tu allan i'r ysgol a bydd y gatiau'n agor tua 12.45pm. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar nifer yr aelodau o'r teulu sy'n cael mynychu.

Meithrin i Flwyddyn 2 – bydd angen i ddisgyblion wisgo eu cit chwaraeon ysgol – siorts tywyll a chrys-t gwyn/coch

Blynyddoedd 3,4,5 a 6 – Mae'r disgyblion yma mewn llysoedd a chaniateir iddynt wisgo chrys-t yn lliw eu llys a siorts tywyll.

Bydd angen potel ddŵr **wedi'i labelu'n glir ag enw** ar bob disgybl. Efallai y bydd angen het haul arnynt hefyd, **wedi'u labelu'n glir ag enw**. Rydym yn eich cynghori i roi eli haul ar eich plentyn. Gallwch hefyd anfon eli haul potel sy'n rholio ymlaen (**wedi'i labelu'n glir ag enw**) fel y gallant ail daenu cyn gweithgareddau'r prynhawn. Gweler gwefan yr ysgol am fanylion. (<http://www.ysgolbroogwr.cymru/canllawiau-eli-haul-sunscreen-guidance/>)

Bydd tocynnau raffl ar werth bob dydd am £1 yr un.

Mabolgampau Meithrin i Flwyddyn 2 – bydd disgyblion yn symud o un gweithgaredd i'r llall a byddwch yn gallu cerdded o amgylch y tu allan a'u dilyn o gwmpas i gefnogi'ch plentyn.

Mabolgampau Blynyddoedd 3,4,5 a 6

Cynhelir rasys drwy gydol y prynhawn ac efallai yr hoffech ddod â chadeiriau gwerysll neu blancedi picnic.

Efallai yr hoffech ddod â rhywbeth i'w yfed a/neu fyrbrydau gyda chi wrth i chi fwynhau'r prynhawn. Ni chaniateir alcohol ar dir yr ysgol. Rydym yn Ysgol Eco-Baner Platinwm ac felly gofynnwn i chi gadw sbwriel i'r lleiafswm a mynd ag ef adref gyda chi.

Byddwch yn gallu mynd â'ch plentyn adref gyda chi ar ddiwedd y gweithgareddau, ond bydd yn rhaid i ddisgyblion ddychwelyd i'r dosbarth ac yna cael eu rhyddhau i chi. Gall hyn gymryd ychydig o amser, yn enwedig gyda'r disgyblion ifancaf.

Meithrin a Derbyn- byddwn yn agor y giât ar yr iard Meithrin ac yn rhyddhau'r disgyblion yn ein ffordd arferol.

Blynyddoedd 1 a 2 – Arhoswch ar yr iard isaf os gwelwch yn dda.

Blynyddoedd 3,4,5 a 6 arhoswch ar yr iard uchaf os gwelwch yn dda.

Bydd brodyr a chwiorydd hefyd yn cael mynd adref. Bydd staff yn eich cynorthwyo gyda hyn. Bydd y plant hyn yn dod i'r brif fynedfa.

Os ydych yn cael anawsterau symud, cysylltwch â'r swyddfa ymlaen llaw a byddwn yn gwneud ein gorau glas i'ch cynorthwyo.

Gobeithio gawn ni dywydd braf, rydym yn gobeithio y bydd disgyblion a rhieni yn mwynhau'r prynhawn.

Diolch am eich cefnogaeth